

**GORCHYMYN PRYNU GORFODOL GWEINIDOGION CYMRU  
(CEFNFFORDD CAERDYDD I LAN CONWY (YR A470) - GWELLIANT  
PENLOYN I DAN LAN) 200-**

**DATGANIAD O'R RHESYMAU**

**DISGRIFIAD BYR O DIR Y GORCHYMYN**

Lleolir y cynllun gwella arfaethedig i'r gogledd o Lanrwst ac mae'n cynnwys gwelliannau sy'n rhannol ar-linell ac yn rhannol oddi ar linell er mwyn uwchraddio'r gefnffordd bresennol, a darparu ffordd feiciau/troedffordd a lleiniau ymyl ffordd. Bydd y cynllun gwella arfaethedig yn gyffredinol yn golygu caffael tir i'r gorllewin o'r gefnffordd bresennol. Mae'r tir hwn yn cynnwys dyffryn Afon Conwy, a ddefnyddir fel tir amaethyddol. Mae'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol (DTA) yn dod i'r casgliad fod y tir yn yr ardal yn cynnwys yn gyffredinol dir Gradd 3a o ansawdd "da" gydag ardaloedd o dir Gradd 3b o ansawdd "cymedrol" sy'n gysylltiedig â nentydd neu lle cafodd y traeniad ei rwystro gan y rheilffordd.

Fe all y tir gynhyrchu pwysau cymedrol neu drwm o ystod cyfyng o grobiau gan gynnwys llysiâu, ond mae yna berygl o gnydau gwael mewn blynyddoedd gwlybion pan fo'r tir yn debygol o fod yn amhosibl i'w ddiwyllio am gyfnodau hirion. Mae'r rhan fwyaf o'r tir yn cael ei ddefnyddio fel glaswelltir ac yn dir pori i ddefaid a gwartheg, ond caiff nifer o gaeau yn Nhy'n Ddôl eu defnyddio mewn cylchdro ar gyfer cnydau ac maent ar adegau yn cynnal llysiâu i'w bwyta gan bobl. Y cnydau detholedig ar gyfer glaswelltiroedd y gorlifdir yw gwair a silwair ac fe'u defnyddir yn helaeth hefyd fel tir pori uchel ei ansawdd.

Y prif fan lle ceir eiddo preifat heb fod yn amaethyddol yw Croesfan Tan Lan lle mae clytwaith o batrwm meddiannu tir gyda nifer o berchnogion cofrestredig. Byddai'r cynllun arfaethedig hefyd yn effeithio ar dir ar hyd ymyl Parc a Gardd Plas Madoc i'r dwyrain o'r gefnffordd bresennol. Mae'r tir hwn hefyd mewn perchenogaeth breifat.

**YR ACHOS DROS DDEFNYDDIO PWERAU PRYNU GORFODOL**

Mae'r Gorchymyn Prynu Gorfodol (GPG) drafft yn cael ei gyhoeddi mewn cysylltiad â'r Gorchymyn Llinell drafft â'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl drafft (SRO)) ar gyfer yr A470 Gwelliant Penloyn i Dan Lan. Mewn amgylchiadau penodol bydd Gweinidogion Cymru yn ceisio caffael y tir y mae ei angen ar gyfer cynlluniau bychain i wella priffyrdd drwy gytundeb. Ystyrid nad oedd y dull hwn yn ymarferol ar gyfer y cynllun hwn oherwydd nifer y partion yr effeithir arnynt a natur/pwrpas cymryd y tir. Mae angen y GPG er mwyn sicrhau fod y tir sy'n angenrheidiol ar gyfer y cynllun yn cael ei gaffael yn amserol ac i alluogi' Gweinidogion Cymru i gwrdd â'u ddyletswydd statudol i ddarparu mynedfeydd preifat newydd i fangreoedd, i gymryd lle'r rheini sy'n cael eu cau o dan yr SRO.

Mae Gweinidogion Cymru yn dymuno caffael y tir er mwyn gwneud y cynllun gwella priffordd arfaethedig a ddisgrifir yn y Datganiad hwn o'r Rhesymau. Bydd y gwelliant arfaethedig yn mynd i'r afael â'r nodweddion tansafonol sy'n perthyn i'r ffordd bresennol, sy'n cynnwys y canlynol:

- Diffygion yn safon y gerbyttfordd gyda nifer sylweddol o droadau tansafonol a phellterau gweld i stopio tansafonol iawn. Mae lled y gerbyttfordd bresennol yn dansafonol yn gyffredinol, gan fod yn 6.5 metr ar gyfartaledd ond yn gostwng i 6.2 metr yng nghyffiniau Parc Hanesyddol a gardd Plas Madoc.
- Diffyg cyfleusterau ar gyfer cerddwyr, beicwyr a rhai'n marchogaeth, gyda lled y llain ymyl yn amrywio rhwng 0.0 metr a 2.5 metr.
- Diffygion wrth weld o gyffyrdd ac o fynedfeydd ac iddynt.
- Cyfradd damweiniau o 0.572 o ddamweiniau sy'n achosi anaf personol am bob miliwn o gilomedrau cerbydol, o'i gymharu â chyfradd genedlaethol ar gyfartaledd o 0.179 ar gyfer ffyrdd A un gerbyttfordd hŷn a 0.124 ar gyfer ffyrdd un gerbyttfordd modern.

Bydd y GPG, os caiff ei wneud, yn galluogi Gweinidogion Cymru i gaffael tir oddi wrth berchnogion tir penodol er mwyn adeiladu'r gwelliant arfaethedig ac i altro safle/manylion rhai cyffyrdd a mynedfeydd. Bydd hyn yn caniatáu adeiladu'r gwelliant arfaethedig, a fydd yn gwella'r sefyllfa ar gyfer traffig trwodd ac ar gyfer traffig lleol ac i drigolion lleol sy'n defnyddio'r cyffyrdd â'r mynedfeydd presennol. Er y bydd rhai effeithiau andwyol o ganlyniad i'r cynllun arfaethedig, bydd y mesurau lliniaru arfaethedig yn cwtdogi ar y rhain. Y tir sy'n ddarostyngedig i'r GPG yw'r lleiafswm y mae ei angen i adeiladu'r gwelliant arfaethedig ac i ddarparu'r mesurau lliniaru arfaethedig.

## **Y CYNLLUN ARFAETHEDIG**

Mae'r gwelliant arfaethedig i'r A470 rhwng Penloyn a Than Lan yn cychwyn oddeutu 300 metr i'r gogledd o Lanrwst, gerllaw'r fynedfa i'r eiddo o'r enw Penloyn. Mae'r gwelliant yn dal ymlaen tua'r tua'r gogledd gan fynd heibio Plas Madoc Lodge, Parc Hanesyddol a Gardd Plas Madoc, Tan Lan Crossing, Ty'n Ddôl a Fferm Tan Lan, cyn ail ymuno â'r gerbyttfordd bresennol i'r de o eiddo o'r enw Bryn-rhudd. Mae'r gwelliant arfaethedig yn cynnwys cerbyttfordd newydd 7.3 metr o led. I'r gogledd o Tan Lan Crossing mae'r gwelliant yn cynnwys sribedi caled 1.0 metr o led a lleiniau ymyl glaswelltog 2.5 metr o led. I'r de o Tan Lan Crossing, cyfyngir ar lwybr y ffordd gan y topograffi a chan y rheilffordd gyffiniol a chwtogir lled y lleiniau caled i 0.6 metr gyda llain ymyl 1.4 metr o led ar ochr orllewinol y gerbyttfordd arfaethedig. Ar yr ochr ddwyreiniol, mae lled y llain ymyl yn 3.0 metr, pan fo angen, i wneud lle i lwybr beicio/troedffordd, ond yn ddim ond 1.4 metr o led pan fo'r llwybr beicio/y droedffordd yn gwyro oddi wrth yr aliniad newydd i ddilyn llinell y gefnffordd bresennol. Pan fo'n bosibl neu'n angenrheidiol, cedwir y gefnffordd bresennol ar gyfer mynedfeydd i fangreoedd ac at offer BT, ac i'w defnyddio fel llwybr beicio/troedffordd. Bydd cloddiau newydd, ynghyd â choed a llwyni, yn cael eu plannu fel rhan o'r mesurau lliniaru arfaethedig.

## CANIATÂD CYNLLUNIO

Does dim angen caniatâd cynllunio ar Weinidogion Cymru i adeiladu'r gwelliant arfaethedig. Mae'r pŵer gofynnol i adeiladu'r gwelliant arfaethedig i'w gael yng "Ngorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr 470) (Gwelliant Penloyn i Dan Lan 200-" a "Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lan Conwy (yr A470) (Gwelliant Penloyn i Dan Lan, Ffyrdd Ymyl 200-" y cyhoeddwyd drafft ohonynt ar 14 Mehefin 2007.

## MATERION ERAILL

Mae Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Coedwig Gwydr i'w chael i'r de-orllewin o'r gwelliant arfaethedig ac i'r gorllewin o Afon Conwy. Mae'r ACA wedi ei ffurfio o gyfres o safleoedd tameidiog sy'n gysylltiedig ag un o'r ddwy nodwedd gymwys a ganlyn:

- ardal sy'n cynnwys glaswelltir Calaminaraidd o fath *Violetalia calaminariae*, neu
- mwyngloddiau sy'n cynnwys poblogaethau o Ystlumod Pedol Lleiaf (*Rhinolophus hipposideros*)

Y rhan agosaf o'r ACA at y gwelliant arfaethedig yw ardal o laswelltir Calaminaraidd oddeutu 1.1 cilometr o ben deheuol y gwelliant arfaethedig. Mae'r fynedfa i siafft fwyngloddio agosaf a nodir gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) fel un sy'n cael ei defnyddio gan yr Ystlum Pedol Lleiaf oddeutu 2.5 cilometr o ben deheuol y gwelliant arfaethedig. Fel canlyniad cafodd Asesiad Priodol ei baratoi er mwyn cynorthwyo Gweinidogion Cymru i benderfynu a yw Gwelliant Penloyn i Dan Lan yr 470 yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar gyfanrwydd CAC Mwyngloddiau Fforest Gwydr. Cafodd datganiad i Oleuo'r Asesiad Priodol ei baratoi i ddarparu gwybodaeth ar:

- buddiant ecolegol Mwyngloddiau Coedwig Gwydr yng nghyffiniau'r gwelliant arfaethedig.
- natur a gradd debygol yr effeithiau ar yr ACA oherwydd y cynllun arfaethedig, ynghyd â phrosiectau perthnasol eraill yn yr un ardal.
- ystyriaeth o'r canlyniadau i ddarparu gwybodaeth er mwyn i Asesiad Priodol allu cael ei wneud.

Cafodd y datganiad i Oleuo'r Asesiad Priodol ei gyhoeddi fel rhan o broses y Gorchymyn drafft.

Cafodd amryw o arolygon eu gwneud a daethant i'r casgliad nad oedd, ac eithrio'r broses Asesiad Priodol, unrhyw weithrediadau eraill y byddai caniatâd arbennig yn ofynnol ar eu cyfer. Os, cyn cychwyn y gwaith adeiladu, y canfyddir bod unrhyw rywogaeth a ddiogelir yn debyg o gael ei effeithio'n andwyol, yna byddir yn mynd ati i geisio'r trwyddedau priodol.

Cafwyd ymgynghoriadau â gwahanol gyrff, megis CCGC ac Asiantaeth yr Amgylchedd a chwmpesir canlyniadau ymgynghoriadau o'r fath yn gyffredinol yn y Datganiad Amgylcheddol, a gafodd ei gyhoeddi yr un pryd â'r Gorchymyn drafft a'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl. Nid fydd y cynllun yn cael effaith uniongyrchol ar unrhyw heneb nac adeilad rhestredig, ond bydd yna effeithiau andwyol bychan i gymedrol ar Barc Hanesyddol a Gardd Plas Madoc, sy'n safle Categori B o bwysigrwydd rhanbarthol neu sirol.

Cafodd manylion traenio'r gwelliant arfaethedig eu trafod ag Asiantaeth yr Amgylchedd. Byddwn yn cysylltu â'r Asiantaeth eto yn ystod y cymal dyluniad manwl er mwyn sicrhau ei bod yn fodlon â'r cwlfer arfaethedig ac â manylion eraill sy'n rhan o'r cynllun. Bydd unrhyw waith adeiladu gerllaw cyrsiau dŵr presennol yn cael ei wneud mewn modd sy'n cydymffurfio â gofynion penodol Asiantaeth yr Amgylchedd.

Yn gyffredinol, bydd y gwelliant arfaethedig yn golygu dod â deunyddiau llenwi addas i mewn i adeiladu'r argloddiau y mae eu hangen. Y mae'n debygol, fodd bynnag, y byddir yn cael gwared ag unrhyw ddeunydd dros ben nas gellir ei ddefnyddio o fewn y gwelliant, fydd yn deillio o'r gwaith adeiladu, mewn tomen drwyddedig. Petai'r contractiwr yn dewis cael gwared ag unrhyw ddeunydd dros ben mewn lle arall, bydd yn angenrheidiol iddo sicrhau unrhyw ganiatadau angenrheidiol.

## **MANNAU ADNEUO**

Bydd copi o'r Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft, y Gorchymyn Cefnffordd, y Gorchymyn Ffordd Ymyl (a'r Map neu'r planiau sy'n dod gyda hwynt), Cyfrolau 1 a 2 o'r Datganiad Amgylcheddol ( sy'n cynnwys Crynodeb Anhechnegol), hysbysiad Penderfynu a Thaflen i Oleuo'r Aseiad Priodol ar gael i'w harchwilio yn ddi-dâl ar bob adeg resymol o 5 Gorffennaf 2007 i 26 Gorffennaf 2007 yn y manau canlynol:

- Y Ganden Orchmynion, Yr Is-adran Cynllunio a Gweinyddu Trafnidiaeth, Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd;
- Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Adeiladau'r Llywodraeth, Dinerth Road, Bae Colwyn; a
- Llyfrgell Llanrwst, Plas yn Dre, Ffordd yr Orsaf, Llanrwst.

## **GWRTHWYNEBU**

Caiff unrhyw berson sy'n dymuno gwneud sylwadau ar y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft neu sy'n dymuno ei wrthwynebu wneud hynny yn ysgrifenedig i Lywodraeth Cynulliad Cymru, Trafnidiaeth Cymru, Yr Is-adran Polisi a Gweinyddu Trafnidiaeth 3, Parc Cathays, Caerdydd, gan ddyfynnu'r cyfeirnod BZ780030-312-1 a chan ddatgan seiliau unrhyw wrthwynebiad. Wrth baratoi gwrthwynebiad, ac wrth ddatgan seiliau'r gwrthwynebiad, dylid cadw mewn cof y gellir rhoi gwybod am sylwedd gwrthwynebiad o'r fath i bobl eraill y gall y

gwrthwynebiad effeithio arnynt. Rhaid anfon llythyrau fel eu bod yn cyrraedd dim hwyrach na 26 Gorffennaf 2007.

## **Y BROSES BENDERFYNU**

Deuir i benderfyniad pa un ai i wneud y Gorchymyn Prynu Gorfodol ai peidio ar ôl rhoi ystyriaeth i unrhyw wrthwynebiadau neu sylwadau a wneir, nid yn unig arno ef, ond hefyd ar y Gorchymyn Llinell a'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl. Oni chaiff pob gwrthwynebiad statudol ei dynnu'n ôl, fe all fod yn angenrheidiol cynnal Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus gerbron Arolygydd Annibynnol. Byddai'r Arolygydd penodedig wedyn yn adrodd ar ei ganfyddiadau, ei gasgliadau a'i argymhellion i Weinidogion Cymru a fyddent wedyn yn dod i benderfyniad terfynol ar pa un ai i wneud y Gorchymyn neu'r Gorchymynion ai peidio.